Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

SOCO!

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 26.

Dull

Mae trosedd ofnadwy wedi'i chyflawni. Caiff y tiwtor ddewis be' yn union ydy'r drosedd gan ddibynnu ar ddiddordebau'r dosbarth.

Rhannwch yn barau a rhowch gopi o Lun Soco nhw. Dyma leoliad y drosedd.

Yn gyntaf, rhaid i bob pâr, fel y bobl gyntaf yno, feddwl am 10 cwestiwn i'w gofyn i dystion. Mae modd amrywio'r cwestiynau ond awgrymir:

Be' ydy lliw gwallt y

Pwy sy'n sefyll ar y/y tu ôl i…

Oes 'na enw ar y bws?

Lle mae…?

Wedi paratoi'r 10 cwestiwn, dylid cuddio'r lluniau a chodi a mynd i chwilio am y troseddwr. Dylai pawb siarad â phawb arall a gofyn yr wyth cwestiwn.

Ar ddiwedd yr ymarfer, mae pawb yn tynnu sylw at yr un sydd yn edrych yn fwyaf euog – h.y. yr un sydd wedi cael y nifer fwyaf o gwestiynau yn anghywir.

Mae'n rhaid i'r dosbarth gytuno pwy ydy'r troseddwr.

Taflen y Tiwtor

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

SOCO!